

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**21/05/2008**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig**  
**Questions to the Minister for Rural Affairs**

**Common Agricultural Policy Reform**

**Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin**

**Q5 Lynne Neagle:** Will the Minister make a statement on the representations made by the Welsh Assembly Government relating to the common agricultural policy reform? OAQ(3)0317(RAF) *Transferred for written answer.*

**C5 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sylwadau a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin? OAQ(3)0317(RAF) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** I will have further discussions with ministerial colleagues at the UK level in the light of the legislative proposals published by the European Commission yesterday under the common agricultural policy healthcheck process. In addition, I met the EU commissioner for agriculture and rural development in April.

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Byddaf yn cael trafodaethau pellach gyda Gweinidogion y DU yng ngoleuni'r cynigion deddfwriaethol a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Ewrop ddoe o dan broses archwiliad iechyd y polisi amaethyddol cyffredin. Yn ogystal, cefais gyfarfod gyda chomisiynydd amaethyddiaeth a datblygu gwledig yr UE ym mis Ebrill.

*Atebwyd cwestiynau 6 i 14 yn y Cyfarfod Llawn.*  
*Questions 6 to 14 were answered in Plenary.*

**Eradicating Bovine TB**

**Dileu TB mewn Gwartheg**

**Q15 Peter Black:** Will the Minister make a statement on progress in eradicating bovine tuberculosis? OAQ(3)0310(RAF) *Transferred for written answer.*

**C15 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd yng nghyswllt dileu tiwbercwlosis mewn gwartheg? OAQ(3)0310(RAF) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

**Elin Jones:** In my statement in April, I proposed taking forward a wide range of measures with a view to eradicating bovine TB. We are now taking this programme forward in consultation with partners on the strategy groups.

**Elin Jones:** Yn fy natganiad ym mis Ebrill, cynigais ddatblygu ystod eang o fesurau, gyda'r bwriad o ddileu TB mewn gwartheg. Yr ydym bellach yn datblygu'r rhaglen hon gan ymgynghori â phartneriaid yn y grwpiau strategaeth.